Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Arolwg ynghylch y defnydd o Swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol 2022

## Cyflwyniad

Mae nifer o staff Cyngor Sir Ceredigion nawr yn medru gweithio o gartref. Felly, mae cyfleoedd sylweddol i drawsnewid y mannau lle arferai'r desgiau a'r ystafelloedd cyfarfod.

Rydym am dderbyn eich barn a'ch syniadau chi **am y ffordd orau o ddefnyddio prif swyddfeydd/ adeiladau'r Cyngor yn y dyfodol.**

Os oes angen i chi cysylltu efo ni neu os oes angen unrhyw wybodaeth mewn fformat gwahanol, (er enghraifft print mawr, Hawdd ei Ddarllen neu fersiwn pobl iau), cysylltwch efo ni ar 01545 570881 neu clic@ceredigion.go.uk os gwelwch yn dda.

Bydd yr arolwg yma yn cau ar **ddydd Mawrth 31ain o Ionawr 2023.**

## At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio eich data personol

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i lywio ymchwil ynglŷn â defnyddio swyddfeydd/adeiladau'r Cyngor at ddibenion eraill. Wrth gwblhau'r arolwg yma yn wyneb i wyneb, bydd eich ymateb yn ddienw.

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth yw cyflawni tasg er budd y cyhoedd a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Eich hawliau Diogelu Data

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau ac i gael manylion cyswllt ein Swyddog Diogelu Data, ymwelwch â gwefan Cyngor Sir Ceredigion (www.ceredigion.gov.uk) a chwiliwch am 'Hysbysiad Preifatrwydd'.

## Adran 1: Hygyrchedd gwasanaethau'r Cyngor

Mae Adran 1 yr Arolwg yn canolbwyntio ar wasanaethau presennol y Cyngor a'i hygyrchedd. Rydym yn gyfrifol am nifer o wasanaethau gan gynnwys casglu sbwriel, glanhau'r strydoedd, cynllunio, addysg, gofal cymdeithasol, cynnal a chadw'r ffyrdd, iechyd y cyhoedd, diogelu plant & phobl ifanc, unigolion a theuluoedd bregus, tai, hamdden, amgueddfeydd a llyfrgelloedd. Rydym am gael gwybod sut ydych chi'n cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar hyn o bryd a pha mor hawdd yw gwneud hynny. Hefyd, hoffem wybod a ydy hyn wedi newid ers pandemig COVID-19.

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Sut ddylwn i gwblhau'r arolwg yn gywir?**

**<u>Ticiwch</u>** y blwch priodol i ddewis eich ateb. Ar gyfer cwestiynau graddio, rhowch **<u>rif</u>** yn y blwch, fel hyn: **2**

Dilynwch y ⇨ ***ewch i*** gyfarwyddiadau a gadewch unrhyw gwestiynau nad oes angen i chi eu hateb yn wag.

1. **Sut ydych chi'n cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar hyn o bryd?** (Dewiswch bob ateb sy'n berthnasol)

☐ Yn y cnawd / Wyneb yn wyneb
☐ Dros y ffôn / Trwy wasanaeth CLIC
☐ Ar e-bost
☐ Trwy ffurflenni ar y we
☐ Yn ysgrifenedig
☐ Trwy'r cyfryngau cymdeithasol
☐ Ar ffôn symudol / ffôn clyfar / llechen
☐ Arall, rhowch fanylion:

……………………………………………………………

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**2. Pa mor hawdd / anodd yw cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar hyn o bryd?**

☐ Hawdd iawn
☐ Hawdd
☐ Ddim yn hawdd nac yn anodd
☐ Anodd
☐ Anodd iawn

**3. A yw'r ffordd yr ydych yn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor wedi newid ers y pandemig?**

☐ Ydy ⇨ **ewch i** cwestiwn 4

☐ Nac ydy ⇨ **ewch i** cwestiwn 5

**4. Os atebwyd <u>ydy</u> i gwestiwn 3, pa mor fodlon/anfodlon ydych chi gyda'r newidiadau?**

☐ Bodlon iawn
☐ Bodlon
☐ Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
☐ Anfodlon
☐ Anfodlon iawn

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Adran 2: Dyfodol Gwasanaethau'r Cyngor

Mae Adran 2 yn rhoi'r cyfle i chi rannu eich barn a'ch syniadau am ddyfodol gwasanaethau'r Cyngor ar draws Ceredigion a'r ffordd orau o addasu prif swyddfeydd/adeiladau'r Cyngor at ddibenion gwahanol. Rydym am gael gwybod pa ffactorau sydd fwyaf pwysig i chi wrth ystyried hyn.

5. **Nodwch yn nhrefn blaenoriaeth, sut fyddai'n well gennych chi gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol?** *1 yn cael ei ffafrio fwyaf hyd at 9 yn cael ei ffafrio leiaf.*

   ☐Yn y cnawd / Wyneb yn wyneb
   ☐ Rhithiol/ Wyneb yn wyneb
   ☐ Dros y ffôn / Trwy wasanaeth CLIC
   ☐ Ar e-bost
   ☐ Trwy ffurflenni ar y we
   ☐ Yn ysgrifenedig
   ☐ Trwy'r cyfryngau cymdeithasol
   ☐ Ar ffôn symudol / ffôn clyfar / llechen
   ☐ Sgwrs fyw/blwch sgwrsio

   Arall, rhowch fanylion:

   ……………………………………………………………...

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

6. **Pan fyddwch chi'n cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor yn y cnawd / wyneb yn wyneb, pa dref neu drefi yr ydych chi'n debygol o fynd i?** (Dewiswch bob ateb sy'n berthnasol).

☐ Aberystwyth ⇨ **ewch i** cwestiwn 7
☐ Aberaeron ⇨ **ewch i** cwestiwn 8
☐ Aberteifi ⇨ **ewch i** cwestiwn 9
☐ Llanbedr Pont Steffan ⇨ **ewch i** cwestiwn 9
☐ Llandysul ⇨ **ewch i** cwestiwn 9
☐ Tregaron ⇨ **ewch i** cwestiwn 9

7. **Yn Aberystwyth, ble fyddai'n well gennych chi gael mynediad at wasanaethau yn y cnawd / wyneb yn wyneb? Nodwch hyn yn nhrefn yr hyn fyddai'n well gennych chi.** *1 yn cael ei ffafrio fwyaf hyd at 3 yn cael ei ffafrio leiaf.*

☐ Canolfan Rheidol (Aberystwyth)
☐ Neuadd y Dref (y Llyfrgell, Aberystwyth)
☐ Y Ganolfan Hamdden (Plascrug, Aberystwyth)

**8. Yn Aberaeron, ble fyddai'n well gennych chi gael mynediad at wasanaethau yn y cnawd / wyneb yn wyneb? Nodwch hyn yn nhrefn yr hyn fyddai'n well gennych chi.** *1 yn cael ei ffafrio fwyaf hyd at 2 yn cael ei ffafrio leiaf.*

☐ Penmorfa (Aberaeron)
☐ Neuadd y Sir (y Llyfrgell, Aberaeron)

**9. Pa mor bwysig yw llefydd parcio wrth gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor?**

☐ Pwysig iawn
☐ Pwysig
☐ Ddim gwahaniaeth naill ffordd neu'r llall
☐ Ddim yn bwysig
☐ Ddim yn bwysig o gwbl

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**10. Yn nhrefn yr hyn fyddai'n well gennych chi, pa adeg sydd fwyaf cyfleus i chi gael mynediad at swyddfeydd / adeiladau'r Cyngor?** *1 yn cael ei ffafrio fwyaf hyd at 5 yn cael ei ffafrio leiaf.*

☐ Yn y bore (7:30am-12pm)
☐ Yn y prynhawn (12pm – 5pm)
☐ Gyda'r hwyr (5pm-9pm)
☐ Ar dydd Sadwrn
☐ Ar ddydd Sul

**11. Yn nhrefn yr hyn fyddai'n well gennych chi, pa ffactorau dysen ystyried wrth ail-bwrpasu swyddfeydd/adeiladau'r Cyngor?** *1 yn cael ei ffafrio fwyaf hyd at 7 yn cael ei ffafrio leiaf.*

☐ Amseroedd agor
☐ Mynediad at hunanwasanaeth
☐ Amseroedd parcio
☐ Parcio anabl
☐ Ystod o wasanaethau
☐ Cyswllt wyneb yn wyneb
☐ Argaeledd Wi-Fi

Arall, rhowch fanylion:

……………………………………………………………

## Adran 3: Defnyddio Prif Swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol

Mae Adran 3 yn rhoi'r cyfle i chi rannu eich barn a'ch syniadau am y defnydd y gellir ei wneud o dair prif swyddfa'r Cyngor – Penmorfa (Aberaeron), Canolfan Rheidol (Aberystwyth) a Neuadd y Sir (Aberaeron). Rydym am gael eich syniadau ynglŷn â sut y gallwn ni wneud y defnydd gorau o'r swyddfeydd hyn yn y dyfodol.

**12. A oes gennych chi unrhyw syniadau pellach ynglŷn â'r modd y dylai'r Cyngor ddefnyddio Penmorfa (Aberaeron) yn y dyfodol?** (Dewisiwch y tri opsiwn y byddech chi'n eu ffafrio.).

☐ Iechyd
☐ Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar dlodi e.e. banciau bwyd, ystafelloedd cynnes
☐ Gofal Cymdeithasol
☐ Hamdden
☐ Cymunedol e.e. llyfrgell, sefydliadau yn y trydydd sector
☐ Twristiaeth e.e. gwesty
☐ Manwerthu e.e. siopau
☐ Busnes e.e. hybiau busnes, desgiau poeth
☐ Defnydd preswyl
☐ Arall, rhowch fanylion:………………………………………………

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**13. A oes gennych chi unrhyw syniadau pellach ynglŷn â'r modd y dylai'r Cyngor ddefnyddio Canolfan Rheidol (Aberystwyth) yn y dyfodol?** (Dewiswch y tri opsiwn y byddech chi'n eu ffafrio.).

- ☐ Iechyd
- ☐ Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar dlodi e.e. banciau bwyd, ystafelloedd cynnes
- ☐ Gofal Cymdeithasol
- ☐ Hamdden
- ☐ Cymunedol e.e. llyfrgell, sefydliadau yn y trydydd sector
- ☐ Twristiaeth e.e. gwesty
- ☐ Manwerthu e.e. siopau
- ☐ Busnes e.e. hybiau busnes, desgiau poeth
- ☐ Defnydd preswyl
- ☐ Arall, rhowch fanylion:……………………………

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**14. A oes gennych chi unrhyw syniadau pellach ynglŷn â'r modd y dylai'r Cyngor ddefnyddio Neuadd y Sir (Aberaeron) yn y dyfodol?** (Dewiswch y tri opsiwn y byddech chi'n eu ffafrio).

☐ Iechyd
☐ Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar dlodi e.e. banciau bwyd, ystafelloedd cynnes
☐ Gofal Cymdeithasol
☐ Hamdden
☐ Cymunedol e.e. llyfrgell, sefydliadau yn y trydydd sector
☐ Twristiaeth e.e. gwesty
☐ Manwerthu e.e. siopau
☐ Busnes e.e. hybiau busnes, desgiau poeth
☐ Defnydd preswyl
☐ Arall, rhowch fanylion:……………………………………..

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**15. Pa opsiwn/opsiynau ar gyfer addasu Swyddfeydd y Cyngor at ddibenion gwahanol fyddai o'r budd mwyaf i'r Gymraeg?** *h.y. a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac a fyddai'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg* (Dewiswch bob ateb sy'n berthnasol).

☐Iechyd
☐ Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar dlodi e.e. banciau bwyd, ystafelloedd cynnes
☐ Gofal Cymdeithasol
☐ Hamdden
☐ Cymunedol e.e. llyfrgell, sefydliadau yn y trydydd sector
☐ Twristiaeth e.e. gwesty
☐ Manwerthu e.e. siopau
☐ Busnes e.e. hybiau busnes, desgiau poeth
☐ Dim un o'r uchod
☐ Arall, rhowch fanylion:…………………………………

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## 16. A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r modd y dylai'r Cyngor wneud y defnydd gorau o'i adeiladau yn y dyfodol?

## Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb

Mae'r cwestiynau hyn yn **ddewisol.** Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Cyngor eu gofyn er mwyn deall a yw'r ymgynghoriad wedi cyrraedd y bobl iawn (yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010) ac i ddeall sut y gallai'r cynnig effeithio ar wahanol grwpiau, gan ein galluogi i fynd i'r afael â hyn os gallwn ni.

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn cael eu gwneud yn ddienw yn awtomatig a'u hagregu mewn modd na fydd yn caniatáu nodi ymatebion unigol. Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, cedwir unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani ar y cwestiynau canlynol yn gwbl gyfrinachol at ddibenion dadansoddi data yn unig.

## Oedran

**17.** Beth yw eich grŵp oedran?

☐ O dan 16 oed
☐ 16-24 oed
☐ 25-44 oed
☐ 45 -64 oed
☐ 65 +
☐ Gwell gennyf beidio â dweud

## Rhyw

**18.** Beth yw eich rhyw?

☐ Gwryw
☐ Benyw
☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Arall: ……………………..

**19.** Ydy'ch rhyw yn awr yr un fath â'r un a ddyrannwyd i chi ar eich genedigaeth?

☐ Ydy
☐ Nac ydy
☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

## Cyfeiriadedd Rhywiol

**20.** Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n eich disgrifio orau?

☐ Heterorywiol / Strêt
☐ Dyn Hoyw
☐ Menyw Hoyw / Lesbiad
☐ Deurywiol
☐ Gwell gennyf beidio â dweud

## Partneriaeth

**21.** Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio eich statws?

☐ Sengl
☐ Priod
☐ Yn byw gyda phartner
☐ Wedi ysgaru
☐ Gweddw
☐ Mewn partneriaeth sifil
☐ Wedi gwahanu
☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Arall: ……………………….

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Hunaniaeth Genedlaethol

**22.** Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

☐ Cymro / Cymraes
☐ Sais / Saesnes
☐ Albanwr / Albanes
☐ Gwyddel / Gwyddeles
☐ Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
☐ Prydeiniwr / Prydeinwraig
☐Gwell gennyf beidio â dweud

Arall: ……………………….

## Hil

**23.** Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau.

☐ Gwyn
☐ Asiaidd
☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd
☐ Cymysg
☐ Teithwyr Sipsi
☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Iaith**

**24.** Beth yw eich dewis iaith?

☐ Cymraeg
☐ Saesneg
☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Arall: ………………………

**25.** Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

☐ Deall Cymraeg llafar
☐ Siarad Cymraeg
☐ Darllen Cymraeg
☐ Ysgrifennu Cymraeg
☐ Dim un o'r uchod
☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**Anabledd**

**26.** A oes gennych chi gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?

☐ Oes ⇨ **ewch i** cwestiwn 27
☐ Nac oes ⇨ **ewch i** cwestiwn 28
☐ Gwell gennyf beidio â dweud ⇨ **ewch i** cwestiwn 28

**27.** Os atebwyd **'Oes'** i gwestiwn 26, nodwch beth sy'n berthnasol i chi?

- ☐ Nam ar y clyw
- ☐ Nam ar y golwg
- ☐ Nam ar y lleferydd
- ☐ Anawsterau dysgu
- ☐ Problemau iechyd meddwl
- ☐ Nam corfforol / symudedd
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Arall: …………………….

## Cyfrifoldebau Gofalu

**28.** Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd cyflwr iechyd / anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu broblemau yn ymwneud â henaint?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Crefydd

**29.** Beth yw eich crefydd?

☐ Cristnogaeth (pob enwad)
☐ Bwdhaeth
☐ Hindŵaeth
☐ Islam
☐ Siciaeth
☐ Iddewiaeth
☐ Anffyddiaeth
☐ Dim crefydd
☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Arall: ………………………

## Diwedd yr arolwg

**Diolch** am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg yma. Rydym yn gwerthfawrogi'r wybodaeth rydych chi wedi darparu. Bydd eich ymateb yn cyfrannu ar ein dadansoddiad o sut i ddefnyddio prif adeiladau/swyddfeydd y Cyngor orau yn y dyfodol.

Dychwelwch y ffurflen hon i un o **lyfrgelloedd Ceredigion** neu **postiwch y ffurflen i**:

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Tîm Ymchwil a Pherfformiad
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Gellir cysylltu â ni trwy:**

**E-bost:**
Performanceresearch@ceredigion.gov.uk

**Ffôn:** 01545 570881

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd **adroddiad ymgysylltu**, yn cyfleu canfyddiadau'r arolwg, yn cael ei gynhyrchu **erbyn 31 Mawrth 2023.**